

Côd Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth

Cynnwys

Rhan 1: Côd Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth

1. Pwrpas
2. Statws y Côd hwn
3. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
4. Prif nodweddion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
5. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
6. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
7. Prif Egwyddorion ymagwedd Cyngor Sir Caerfyrddin at fod yn agored
8. Adolygu'r Côd Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth

Rhan 2: Ceisiadau am wybodaeth

1. Rhoi cyngor a chymorth
2. Gwneud cais am wybodaeth

Rhan 3: Esbonio'r egwyddorion

1. Bod mor agored â phosibl
2. Cyflwyno busnes
3. Cynllun cyhoeddi
4. Rhoi ymateb prydlon a chynhwysfawr
5. Rhoi hawl i gwyno
6. Codi tâl am roi gwybodaeth
7. Diogelu preifatrwydd
8. Sicrhau triniaeth gyfartal

Atodiadau

Atodiad 1 – Deddf Rhyddid Gwybodaeth – Eithriadau absoliwt

Atodiad 2 – Deddf Rhyddid Gwybodaeth – Eithriadau eraill

Atodiad 3 – Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol – eithriadau i'r ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth

Rhan 1

Côd Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth

1. Pwrpas

Mae'r Côd Ymarfer hwn yn disgrifio'r egwyddorion sy'n sail i ymagwedd Cyngor Sir Caerfyrddin at hybu llywodraeth agored ac mae'n atgyfnerthu ei ymrwymiad i fod yn agored.

2. Statws y Côd hwn

Nid yw'r Côd hwn yn ddogfen gyfreithiol ac nid yw'n rhoi hawliau i unrhyw un ac nid yw'n drech nag unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol neu statudol sydd naill ai'n ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth neu rwystro hynny.

Mae'r Côd yn berthnasol i wybodaeth a ddelir gan y Cyngor. Mae contractau y mae'r Cyngor wedi eu gwneud gyda chwmnïau preifat yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth.

Mae'r cyfeiriadau at y Cyngor yn y Côd hwn yn gyfeiriadau at Gyngor Sir Caerfyrddin.

3. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r Côd hwn yn talu sylw i brif nodweddion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) gan gynnwys y categorïau o wybodaeth eithriedig a bennir yn y Ddeddf honno.

4. Prif nodweddion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl cyffredinol i'r cyhoedd weld gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor ar ffurf gofnodedig ac mae'n rhoi dwy ddyletswydd gyffredinol ar y Cyngor:

- I gadarnhau neu i wadu bod y wybodaeth y gofynnir amdani ganddo, ac;
- Os yw'r wybodaeth ganddo, rhaid iddo ganiatáu i'r person sy'n gwneud y cais ei gweld.

Hefyd mae'r Ddeddf:

- Yn darparu terfynau amser statudol ar gyfer cydymffurfio â chais am wybodaeth
- Yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyngor a chymorth i bobl sy'n ceisio gwybodaeth
- Yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi ar ba sail y mae'n gwrthod cais am wybodaeth a rhoi cyngor am sut i gwyno yn yr amgylchiadau hynny.

Mae'r dyletswyddau hyn yn amodol ar eithriadau a nodir yn Atodiad 1 a 2.

Er bod rhai o'r eithriadau hyn yn eithriadau absoliwt, mae rhai eraill yn eithriadau amodol, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu'r hyn a elwir yn brawf budd y cyhoedd cyn penderfynu p'un ai i atal neu i ryddhau'r wybodaeth. Rhaid i'r Cyngor

asesu a yw budd y cyhoedd wrth ddefnyddio'r eithriad yn drech na budd y cyhoedd wrth ryddhau'r wybodaeth yn yr holl amgylchiadau.

Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n wirioneddol er budd y cyhoedd a'r hyn a allai fod yn ddim ond o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Heblaw am yr eithriadau y cyfeirir atynt uchod, mae'r Ddeddf yn darparu y gall y Cyngor wrthod cadarnhau neu wadu fod ganddo wybodaeth a/neu roi mynediad at wybodaeth:

- Ar y sail y byddai'r gost yn fwy na'r terfyn cost a bennwyd
- Ar y sail bod angen ffi a bod honno heb ei thalu
- Ar y sail bod y ceisiadau'n gynhennus neu'n ailadroddus neu pan fo ceisiadau tebyg iawn yn dod i law oddi wrth yr un person
- Nid yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o fanylion i wybod pa wybodaeth sydd ei hangen

Hefyd mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu, gweithredu, cynnal ac adolygu'n rheolaidd gynllun cyhoeddi sy'n ymrwymo'r Cyngor i gyhoeddi dosbarthiadau penodol o wybodaeth fel mater o drefn, heb fod angen gwneud cais i weld y wybodaeth honno. Rhaid i'r cynllun nodi:-

- Y dosbarthiadau gwybodaeth y mae'r Cyngor yn eu cyhoeddi fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol
- Sut y gellir cael y wybodaeth
- A yw'r wybodaeth ar gael yn ddi-dâl neu a godir tâl am y wybodaeth

5. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod annibynnol sydd wedi'i sefydlu i hybu'r cyfle i weld gwybodaeth swyddogol. Mae ei dyletswyddau'n cynnwys hybu cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf, hybu arferion da ac ymchwilio i gwynion am fethiant awdurdod cyhoeddus â chydymffurfio â gofynion y Ddeddf. O ymchwilio i'r gŵyn, gall y Comisiynydd Gwybodaeth orfodi awdurdod cyhoeddus i ryddhau gwybodaeth os ystyrir bod y wybodaeth wedi cael ei hatal yn anghywir.

6. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Os gofynnir am wybodaeth gofnodedig a ddiffinnir fel 'gwybodaeth amgylcheddol', yna ymdrinnir â'r cais o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (y Rheoliadau), yn hytrach na'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau yn rhoi hawl gyffredinol i weld gwybodaeth sy'n bodloni'r diffiniad o wybodaeth amgylcheddol. Mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu gwybodaeth ynghylch:

- Cyflwr elfennau'r amgylchedd, megis aer, atmosffer, dŵr a thir, a'r rhyngweithio sy'n digwydd rhwng yr elfennau hyn
- Ffactorau sy'n effeithio neu sy'n debygol o effeithio ar yr elfennau hyn megis allyriadau, sŵn, ymbelydredd a gwastraff
- Mesuriadau a gweithgareddau sy'n effeithio neu sy'n gallu effeithio ar yr elfennau a'r ffactorau hyn
- Adroddiadau ar y modd y caiff deddfwriaeth amgylcheddol ei gweithredu

- Dadansoddiad budd cost a dadansoddiadau economaidd eraill a ddefnyddir yn y mesuriadau a'r gweithgareddau y cyfeirir atynt uchod
- Cyflwr iechyd a diogelwch dynol os yw hwn yn cael ei effeithio arno gan elfennau o'r amgylchedd

Mae dau wahaniaeth allweddol rhwng y Rheoliadau a'r Ddeddf:

- Gellir cyflwyno ceisiadau ar lafar
- Mae'r amgylchiadau lle gellir gwrthod ceisiadau yn fwy cyfyngedig

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys rhagdybiaeth o blaid datgelu ac fel y Ddeddf, os yw'r Cyngor yn gwrthod darparu gwybodaeth a ddelir ganddo, rhaid iddo nodi yn ysgrifenedig ei resymau dros wrthod, gan ddefnyddio un o'r eithriadau i'r ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth. Rhestrir yr eithriadau hyn yn Atodiad 3.

7. Prif egwyddorion ymagwedd y Cyngor at fod yn agored

Heblaw am ofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i'r egwyddorion canlynol sy'n cael eu hegluro'n fanylach yn Rhan 3:

- Bod mor agored â phosibl yn y modd y mae'n gwneud ei waith
- Cyflwyno gwybodaeth mewn iaith eglur yn unol â'i bolisi iaith a thalu sylw i anghenion gwahanol
- Defnyddio gwefan y Cyngor www.sirgar.gov.uk yn helaeth i gyhoeddi gwybodaeth
- Rhoi atebion prydlon a chynhwysfawr i geisiadau am wybodaeth
- Rhoi hawl i gwyno os bydd aelod o'r cyhoedd yn anfodlon â'r ateb a gafodd
- Rhoi gwybodaeth am ddim lle bynnag y bo modd a chyngor eglur am y taliadau a phryd maent yn berthnasol
- Parchu preifatrwydd personol, cyfrinachedd masnachol, y ddyletswydd i arddel cyfrinachedd a'r holl ddeddfau sy'n rheoli rhyddhau gwybodaeth

8. Adolygu'r Côt Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth

Bydd y Côt hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'r gofynion statudol ac unrhyw godau ymarfer a wnaed dan y Ddeddf.

Rhan 2

Ceisiadau am wybodaeth

1. Rhoi cyngor a chymorth

Cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn bosibl, bydd y Cyngor Sir yn rhoi cyngor a chymorth i ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr gyda'u ceisiadau am wybodaeth.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cael cyngor ynghylch cael mynediad at wybodaeth gysylltu â'r Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir ar dudalen gynnwys y ddogfen hon.

2. Gwneud cais am wybodaeth

Rhaid i geisiadau am wybodaeth fod yn ysgrifenedig a gellir eu gwneud:

- Drwy'r post, i'r cyfeiriad a ddarperir
- Drwy e-bost
- Neu drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein a ddarperir ar wefan y Cyngor

Yr eithriadau i'r rheidrwydd hwn yw ceisiadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, y gellir eu gwneud ar lafar.

Rhaid i geisiadau am wybodaeth:-

- Gynnwys cyfeiriad post neu e-bost y dylid anfon yr ateb iddo
- Rhoi digon o fanylion fel bod y swyddogion yn gwybod pa wybodaeth sydd ei hangen – os nad yw'r cais yn cynnwys digon o fanylion i'r swyddogion fedru penderfynu pa wybodaeth mae'r ymgeisydd yn dymuno ei chael, gellir gofyn am eglurhad

Os nad yw'r unigolyn yn gallu rhoi ei gais/chais yn ysgrifenedig, bydd y Cyngor yn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi er mwyn i gais am wybodaeth gael ei wneud. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, bydd hyn yn cynnwys:

- Rhoi gwybod iddynt y gall unigolyn neu asiantaeth arall (megis Cyngor ar Bopeth) eu helpu efallai gyda'r cais, neu wneud y cais ar eu rhan
- Mewn amgylchiadau eithriadol, cymryd nodyn o'r wybodaeth y gwneir cais amdani, drwy ffonio neu wyneb yn wyneb, a rhoi'r nodyn i'r un sy'n gwneud y cais iddo/iddi ei gadarnhau. Mewn amgylchiadau o'r fath, ar ôl i'r un sy'n gwneud y cais gadarnhau'r nodyn ac i'r nodyn gael ei ddychwelyd i'r Cyngor, bydd y nodyn yn cyfrif fel cais ysgrifenedig am wybodaeth a bydd y terfyn amser statudol ar gyfer ateb yn dechrau unwaith y bydd y cadarnhad wedi dod i law

Gellir dewis sut y dymunir i'r wybodaeth gael ei darparu. Er enghraifft copi papur o'r wybodaeth, taenlen, neu grynoded.

Lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r dewis a fynegwyd. Lle nad yw'n rhesymol ymarferol i gydymffurfio â dewis yr ymgeisydd byddwn yn egluro pam.

Rhan 3

Esbonio'r Egwyddorion

1. Bydd y cyngor mor agored â phosibl

Bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth oni bai bod rhesymau cyfreithiol neu resymau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd dros beidio â gwneud hynny.

Yn yr enghreifftiau canlynol ni fyddai gwybodaeth yn cael ei gwneud yn agored i'r cyhoedd:

- Lle mae gwybodaeth y gwnaed cais amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn perthyn o fewn un o'r categorïau o wybodaeth eithriedig a restrir yn Atodiadau 1 a 2 a lle bo'n berthnasol, bod budd y cyhoedd o blaid atal y wybodaeth
- Lle mae eithriad o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn berthnasol
- Lle byddai amodau cyfrinachedd yn cael eu torri
- Lle bernir bod gwybodaeth sydd mewn adroddiadau i bwyllgorau'r Cyngor yn wybodaeth gyfrinachol neu'n eithriedig o dan Adran 100 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Bydd cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd. Ond, o dro i dro, bydd angen eithrio'r cyhoedd pan fydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei thrafod. Fel rheol, dangosir yr achosion hynny ar yr agenda.

2. Cyflwyno busnes

Bydd y Cyngor yn cyflwyno ei fusnes mewn iaith eglur yn unol â'i gynllun iaith. Bydd yn anelu at baratoi dogfennau cryno, hawdd i'w darllen, a bydd yn rhoi sylw i anghenion gwahanol sectorau o'r gymuned, gan gynnwys pobl ag anabledau.

3. Cynllun cyhoeddi

Mae'r Cyngor yn cadw cynllun cyhoeddi sy'n caniatáu i'r cyhoedd ddod o hyd i wybodaeth allweddol a gynhyrchir gan y Cyngor wrth gyflawni'i fusnes.

Gellir gweld y cynllun cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y defnydd mwyaf posibl o'i wefan i gyhoeddi gwybodaeth.

4. Rhoi ateb prydlon a chynhwysfawr i gais am wybodaeth

Bydd y Cyngor yn ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i geisiadau am wybodaeth.

Os byddwn yn dal gwybodaeth yn ôl a/neu yn methu â rhoi'r wybodaeth ar y ffurf a ffafrir gan yr ymgeisydd ac a ofynnwyd ganddo/ganddi byddwn yn egluro pam.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf neu'r Rheoliadau yn brydlon ac ym mhob achos, o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais

ddod i law. Mae diwrnod gwaith yn golygu unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu unrhyw ddiwrnod sy'n Wyl Banc.

Mae'r cyfnod o 20 diwrnod gwaith yn dechrau:

- Drannoeth i'r diwrnod y cafodd y Cyngor y cais, neu
- Ar y diwrnod y bydd y Cyngor yn derbyn rhagor o wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn adnabod a dod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani

Felly, nid y dyddiad derbyn yw'r dyddiad yr anfonir y cais ymlaen i'r Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data i'w brosesu.

Fodd bynnag, os anfonir cais drwy e-bost, ac mae neges 'allan o'r swyddfa' awtomatig yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch lle y dylid ailgyfeirio neges, ni fyddai'r Cyngor yn derbyn y cais tan iddo gael ei ail-anfon at yr enw cyswllt arall.

Os nad yw'r Cyngor yn gallu darparu'r wybodaeth yn ddi-dâl ac mae'n penderfynu codi tâl, bydd yr ymgeisydd yn cael tri mis i dalu o'r dyddiad pryd y bydd y Cyngor yn anfon hysbysiad yn gofyn am dâl. Gall hyn godi os oes angen gwneud llawer iawn o lungopïo.

Nid yw'r cyfnod rhwng dyddiad rhoi'r hysbysiad a dyddiad derbyn y ffi yn cael ei gynnwys wrth gyfrif yr 20 diwrnod gwaith.

Bydd ceisiadau Cymraeg am wybodaeth yn cael ateb Cymraeg. Os yw'r dogfennau yn Saesneg yn unig, byddant yn cael eu rhoi yn yr iaith honno ond bydd llythyr Cymraeg yn cael ei anfon gyda nhw.

Wrth ymdrin â chais am wybodaeth, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor fynd ar ôl gwybodaeth na chreu gwybodaeth nad yw yn ei feddiant eisoes. Os credwn y gall y wybodaeth y gwneir cais amdani fod gan awdurdod cyhoeddus arall byddwn yn ymgynghori â nhw.

Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod nad yw'r wybodaeth gan y Cyngor a bydd yn cael manylion ynghylch sut i gysylltu â'r awdurdod perthnasol. Hefyd rhoddir dewis i'r ymgeisydd, gyda chaniatâd yr ymgeisydd, i gael y cais wedi'i drosglwyddo i'r awdurdod sy'n dal y wybodaeth.

Bydd gwybodaeth sydd ar gael eisoes fel rhan o wasanaeth presennol y codir tâl amdano yn cael ei ddarparu drwy'r gwasanaeth hwnnw.

Ni fydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth y gall yr ymgeisydd gael mynediad 'rhesymol' ati trwy fodd arall ac yn enwedig gwybodaeth sydd ar gael o dan y cynllun cyhoeddi.

Bydd y Cyngor bob amser mor agored a chymwynasgar â phosibl ond bydd, lle bo hynny'n briodol, yn gweithredu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf cyn belled ag y mae ceisiadau cynhennus ac ailadroddus am wybodaeth yn y cwestiwn.

Os yw'r Cyngor yn gwrthod rhoi gwybodaeth bydd yr ateb yn cynnwys cyngor ynghylch sut i wneud cwyn.

5. Rhoi hawl i gwyno

Bydd y Cyngor yn rhoi hawl i aelod o'r cyhoedd gwyno os na fydd yn fodlon â'r ateb a gafodd i gais am wybodaeth neu os yw'n anghytuno â phenderfyniad i ddal gwybodaeth yn ôl.

Os yw'r Cyngor yn gwrthod rhoi gwybodaeth, bydd y llythyr fydd yn hysbysu'r ymgeisydd am y penderfyniad yn dweud sut i anfon cwyn gychwynnol at Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith. Bydd manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn cael ei ddarparu.

6. Codi tâl am roi gwybodaeth

Mae'r Cyngor yn anelu at roi cymaint o wybodaeth ag y bo modd am ddim. Fodd bynnag, codir tâl os bydd angen llawer iawn o lungopïo neu argraffu.

Y canlynol yw'r costau fesul copi:

- | | |
|----------------|-------|
| • A4 du a gwyn | 10c |
| • A4 lliw | 20c |
| • A3 du a gwyn | 20c |
| • A3 lliw | 40c |
| • A2 | 50c |
| • A1 | £2.00 |
| • A0 | £5.00 |

Ni fydd y Cyngor yn codi tâl am gopïau os bydd cyfanswm y gost yn llai na £2.00. Mae'r holl daliadau'n cynnwys T.A.W.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi tâl uwch pan fo unrhyw hawl statudol i wneud hynny, neu pan fo dogfennau yn cael eu darparu yn ystod trafodion cyfreithiol.

Mae'n bosibl y bydd gan rai cyhoeddiadau bris ar y clawr. Os bydd y wybodaeth eisoes ar gael mewn cyhoeddiad y codir tâl amdano bydd y Cyngor yn dweud wrthyhych am y cyhoeddiad a sut i'w gael.

Mae'r Gwasanaeth Archifau yn darparu gwasanaeth ymchwil ar gais, a chodir tâl fesul awr am chwilio am wybodaeth sydd yn yr Archifau a chael y wybodaeth honno. Mae manylion y tâl a'r gwasanaeth hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Os ydym yn debygol o godi tâl arnoch mewn perthynas â'r cais, bydd y Cyngor yn dweud hynny wrthyhych ac yn gofyn i chi a ydych yn awyddus i fwrw ymlaen â'r cais cyn iddo wneud y gwaith.

Ni fydd y Cyngor yn codi tâl am y canlynol:

- Unrhyw wybodaeth a ddarperir ar wefan y Cyngor (ac eithrio lle mae angen argraffu llawer o gopïau papur)
- Taflenni, ffurflenni a llyfrynnau di-dâl am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd

- Archwilio cofrestrï cyhoeddus a gedwir yn swyddfeydd y Cyngor, gan gynnwys yn ystod yr oriau gwaith arferol. Efallai mai dim ond mewn un swyddfa y bydd copïau o'r fath yn cael eu cadw
- Archwilio gwybodaeth a gedwir yn holl lyfrgelloedd cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a chan y Gwasanaeth Archifau, yn ystod eu horiau agor arferol

7. Diogelu preifatrwydd

Mae llawer o'r wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bersonol ac yn breifat i unigolion. Ni fydd y cyfryw wybodaeth yn cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol os bydd hynny'n mynd yn groes i unrhyw egwyddorion Diogelu Data a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae gan unigolion hawl ar wahân i gael mynediad at wybodaeth bersonol amdanynt eu hunain o dan y Ddeddf Diogelu Data.

Dylid gwneud y cyfryw geisiadau yn ysgrifenedig at y Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data, yn unol â'r manylion cyswllt a roddwyd ar ddechrau'r Côt hwn, neu drwy e-bost: dataprotection@sirgar.gov.uk

8. Sicrhau triniaeth gyfartal

Rhaid i'r Côt hwn gael ei weithredu'n gyson heb ystyried hil, lliw, cenedl, tarddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, crefydd, oedran, rhyw, trosglwyddiad rhyw, tueddfryd rhywiol, statws priodasol neu riant.

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data ar 01267 224127 neu anfonwch e-bost at: foia@sirgar.gov.uk

Cymeradwywyd y Côt gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ar: 14^{eg} Mai, 2013
Dyddiad adolygu'r Côt: Mai, 2016
Ysgrifennwyd y Côt gan: John Tillman

Atodiad 1

Deddf Rhyddid Gwybodaeth - gwybodaeth eithriedig

Yn Rhan 2 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae categorïau o "wybodaeth eithriedig", hynny yw gwybodaeth nad oes rhaid i'r Cyngor ei datgelu. Mae rhai o'r categorïau yn cael statws 'eithriad absoliwt' i'r hawl i ddatgelu gwybodaeth. Golyga hyn y gall y Cyngor wrthod datgelu'r wybodaeth yn awtomatig os yw'r wybodaeth yn perthyn i un o'r categorïau hyn.

Os yw'r wybodaeth yn perthyn i un o'r categorïau eraill, yna mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu prawf budd y cyhoedd.

Eithriadau Absoliwt

- **Adran 21** – Gwybodaeth y gellir cael mynediad 'rhesymol' ati trwy fodd arall e.e. gwybodaeth sydd ar gael o dan y cynllun cyhoeddi
- **Adran 23** – Gwybodaeth a gafwyd gan, neu sy'n ymwneud â, chyrrff sy'n delio gyda materion diogelwch
- **Adran 32** – Cofnodion llys
- **Adran 34** – Braint seneddol
- **Adran 36** - Gwybodaeth sy'n debygol o beryglu'r gallu i gynnal busnes cyhoeddus yn effeithiol
- **Adran 40** – Gwybodaeth bersonol. Ni all pobl gael gwybodaeth bersonol amdanynt eu hunain o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth oherwydd mae modd ei gael drwy gyfrwng arall dan y Ddeddf Diogelu Data 1998. Ni ellir rhyddhau data personol am drydydd parti os byddai gwneud hynny yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Os bernir y byddai rhyddhau gwybodaeth yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data, nid oes angen gweithredu prawf budd y cyhoedd
- **Adran 41** – Gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol
- **Adran 44** – Gwaharddiadau cyfreithiol ar ddatgelu gwybodaeth (megis lle byddai datgelu'n arwain at ddirmyg llys)

Atodiad 2

Eithriadau amodol

Mae'r eithriadau canlynol yn amodol ar brawf budd y cyhoedd. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r wybodaeth gael ei rhyddhau oni bai bod budd y cyhoedd o beidio â'i rhyddhau yn drech na budd y cyhoedd o'i rhyddhau.

- **Adran 22** - Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol
- **Adran 24** – Diogeledd cenedlaethol
- **Adran 26** - Amddiffyn
- **Adran 27** - Cysylltiadau rhyngwladol
- **Adran 28** - Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig
- **Adran 29** - Yr economi
- **Adran 30** - Ymchwiliadau ac achosion gan awdurdodau cyhoeddus
- **Adran 31** - Gorfodi'r gyfraith
- **Adran 33** - Swyddogaethau archwilio
- **Adran 35** - Ffurio polisi'r llywodraeth
- **Adran 37** - Cyfathrebiadau gydag Ei Mawrhydi, ac ati
- **Adran 38** - Iechyd a diogelwch
- **Adran 39** - Gwybodaeth amgylcheddol, oherwydd gellir cael mynediad at y wybodaeth hon drwy'r **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol**
- **Adran 40** - Gwybodaeth bersonol. Mae rhai rhannau cyfyngedig o'r adran hon yn rhai lle mae'n rhaid cynnal prawf budd y cyhoedd
- **Adran 42** - Braint broffesiynol gyfreithiol
- **Adran 43** - Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion masnachol

Os yw'r Cyngor o'r farn bod budd y cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd o'i rhyddhau, rhaid i'r Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd am ei resymau, oni bai y byddai, wrth wneud hynny, yn rhyddhau'r wybodaeth eithriedig.

Atodiad 3

Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol - eithriadau i'r ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth

Mae'r eithriadau posibl canlynol yn berthnasol:

- **Rheoliad 12(4)(a)** – ni chedwir y wybodaeth
- **Rheoliad 12(4)(b)** – mae'r cais yn amlwg yn un afresymol
- **Rheoliad 12(4)(c)** – mae'r cais wedi'i lunio mewn modd rhy gyffredinol sy'n golygu na ellir ymateb iddo
- **Rheoliad 12(4)(d)** – mae'r cais am wybodaeth sy'n dal i gael ei chwblhau, dogfennau sydd heb eu gorffen neu ddata anghyflawn
- **Rheoliad 12(4)(e)** – mae'r cais yn golygu datgelu cyfathrebu mewnol
- **Rheoliad 12(5)** – byddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith niweidiol ar y canlynol:-
 - (a) Cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyn, diogeledd cenedlaethol neu ddiogelwch y cyhoedd
 - (b) Cwrs cyfiawnder, gallu unigolyn i gael treial teg neu allu awdurdod cyhoeddus i gynnal ymchwiliad troseddol neu ymchwiliad disgyblu
 - (c) Hawliau eiddo deallusol
 - (d) Cyfrinachedd achos lle darperir hyn yn ôl y gyfraith*
 - (e) Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir hyn yn ôl y gyfraith i ddiogelu buddiant economaidd dilys*
 - (f) Buddiannau'r unigolyn sydd wedi darparu'r wybodaeth lle mae ef/hi wedi darparu'r wybodaeth yn wirfoddol, nid oes unrhyw amgylchiadau eraill a fyddai'n caniatáu i'r awdurdod ei datgelu ac nid yw'r unigolyn wedi caniatáu i'r wybodaeth gael ei datgelu*
 - (g) Diogelu'r amgylchedd*

*nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol os yw'r wybodaeth yn ymwneud ag allyriadau.

Lle mae un neu ragor o'r uchod yn berthnasol, mae'n rhaid inni wedyn ystyried a yw budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

- **Rheoliad 13** – bydd gwybodaeth bersonol sy'n eiddo i rywun arall yn cael ei heithrio, lle, er enghraifft, y byddai datgelu'r wybodaeth yn groes i unrhyw egwyddorion diogelu data a geir yn y Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oes angen cynnal prawf budd y cyhoedd yn yr amgylchiadau hyn.